Dogfen Reoleiddio
POLISÏAU A GWEITHDREFNAU RHEOLEIDDIO

Polisi Apeliadau Rheoliadol

Mehefin 2016

Rheoli fersiynau
Cymeradwywyd y fersiwn (2) hon o bolisi Apeliadau Rheoliadol Cymwysterau Cymru ar 25 Mehefin 2016 gan Fwrdd Cymwysterau Cymru.

Mae Adran 48(3) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 (y "Ddeddf"), yn ei gwneud yn ofynnol i Cymwysterau Cymru gyhoeddi trefniadau ar gyfer delio â chwynion a wnaed mewn perthynas â'i swyddogaethau. Bydd Cymwysterau Cymru yn adolygu datganiadau polisi, ac os bydd o'r farn ei bod yn briodol, o ganlyniad i adolygiad, bydd yn paratoi datganiadau diwygiedig. Bydd Cymwysterau Cymru yn adolygu'r ddogfen hon o leiaf bob tair blynedd. Gallai adolygiad o'r fath ystyried effeithiolrwydd y polisi a'i gymhwysedd parhaus. Disgwylir i'r adolygiad nesaf gael ei gynnal erbyn mis Mehefin 2018 fan bellaf. Croesewir adborth ar y polisi hwn ar unrhyw adeg. Anfonwch eich sylwadau i policy@qualificationswales.org.

Egwyddorion Cyffredinol y polisi Apeliadau Rheoliadol

Mae'r polisi hwn ar gyfer unrhyw un sydd am wneud apêl yn erbyn swyddogaethau rheoliadol Cymwysterau Cymru ac mae'n ymgorffori penderfyniadau rheoliadol ac adolygiadau atodlen 3 fel y'u diffinnir o dan y Ddeddf. Nod y polisi yw:

- Darparu proses dryloyw ar gyfer ymdrin ag apeliadau rheoliadol
- Sicrhau bod y bobl hynny y mae ein camau gweithredu wedi effeithio arnynt yn cael y cyfle i ailystyried y cam gweithredu hwnnw/camau gweithredu hynny
- Rhoi hyder i'r cyhoedd bod camau gweithredu Cymwysterau Cymru yn gadarn ac yn gyfiawn

CYNNWYS

CWMPAS Y POLISI
PWY ALL APELIO?
GWNEUD APÊL
PROSES APELIO
ADOLYGIAD CYCHWYNNOL
YSTYRIED YR APÊL
CEISIADAU AM ADOLYGIADAU O BOLISI

CWMPAS Y POLISI

1. Bwriedir i'r polisi hwn gwmpasu apeliadau am neu yn erbyn swyddogaethau rheoliadol Cymwysterau Cymru ac mae'n ymgorffori penderfyniadau rheoliadol ac adolygiadau atodlen 3 fel y'u diffinnir o dan y Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys camau gweithredu ynglŷn â'r canlynol, neu'n gysylltiedig â'r canlynol, ond nid yn gyfyngedig iddynt:

   - p'un a ddylid cymeradwyo, dynodi neu ddiddymu cymhwyster
   - adennill costau ar gyfer gorfodi cosbau
   - cyfarwyddo corff dyfarnu i gymryd camau gweithredu
   - rhoi penderfyniadau polisi rheoliadol ar waith
   - dileu, diwygio, creu neu gymhwyso meini prawf ar gyfer cydnabod neu gymeradwyo

Mae gan y penderfyniadau canlynol hawl i adolygiad annibynnol fel y nodir yn y Ddeddf ac fel y cyfryw cânt eu cyfeirio'n uniongyrchol at gam Adolygiad Annibynnol y polisi hwn a amlinellir ym mhwyntiau 33-39.

- ildio neu dynnu cydnabyddiaeth yn ôl
- cyfarwyddyd yn unol ag amod trosglwyddo
- capio ffi

Bydd yr egwyddorion ar gyfer cynnal apêl a amlinellir ym mhwyntiau 10-11 hefyd yn gymwys i'r broses a amlinellir ym mhwyntiau 33-39.

2. Nid yw'r polisi hwn yn cwmpasu:

   - Achosion cyfreithiol na dyfarniadau
   - Apeliadau y daethpwyd i gasgliadau yn eu cylch yn y gorffennol gan Cymwysterau Cymru
   - Cwynion yn erbyn Cymwysterau Cymru nad ydynt yn ymwneud â swyddogaethau rheoliadol. Dylai cwynion o'r fath gael eu codi drwy'r Weithdrefn Gwyno Gorfforaethol.
   - Cwynion yn erbyn cyrff dyfarnu. Dylai cwynion o'r fath gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at y corff dyfarnu perthnasol neu, lle y bo'n berthnasol, y darparwr dysgu. Ar ôl mynd drwy weithdrefn gwyno'r cyrff dyfarnu gallwch gyflwyno cwyn i ni yn unol â pholisi 'Cwynion am Gyrff Dyfarnu' Cymwysterau Cymru.

PWY ALL APELIO?

3. Gall unrhyw un wneud apêl a gall unigolion neu grŵp wneud hynny, ar yr amod y nodir un unigolyn fel y prif gyswllt at ddibenion cyfathrebu â'r grŵp.

4. Rhaid i apeliadau a gyflwynir ar ran unigolyn arall gael caniatâd ysgrifenedig yr unigolyn hwnnw er mwyn i chi weithredu ar ei ran.[1]

GWNEUD APÊL

5. Os hoffech wneud apêl, anfonwch e-bost at y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol yn corporategovernance@qualificationswales.org neu contact@qualificationswales.org neu ysgrifennwch atom yn:

   Cymwysterau Cymru
   Adeilad Q2
   Lôn Pencarn
   Parc Imperial
   Coedcernyw
   Casnewydd
   NP10 8AR

6. Wrth gyflwyno eich apêl, dylech gynnwys y wybodaeth ganlynol:

   - dyddiadau perthnasol a manylion yr apêl
   - esboniad clir o natur eich apêl a'r sail drosti
   - cronoleg o'r ffeithiau y seilir yr apêl arnynt
   - copïau o unrhyw ddogfennau ategol perthnasol (os ydych yn aros am ddogfennau i'w cyflwyno, nodwch hyn a phryd y bwriadwch eu cyflwyno)[2]
   - yr ateb rydych yn ei geisio
   - eich enw llawn
   - gwybodaeth gyswllt

7. Wrth gyflwyno apêl, mae disgwyl i chi gyflwyno datgeliad llawn a gonest o'r holl ffeithiau perthnasol.

[1] Gall apeliadau a wneir ar ran unigolion o dan 18 oed gael eu gwneud gan rieni neu ofalwyr heb fod angen caniatâd ysgrifenedig.

[2] Er mwyn sicrhau y cyflwynir apeliadau o fewn yr amserlenni cyhoeddedig, gall apelyddion gyflwyno apeliadau gyda'r dogfennau ategol arfaethedig, gan ddarparu rhesymeg ac amserlenni disgwyliedig ar gyfer derbyn y dogfennau. Noder y gall oedi wrth gyflwyno dogfennau effeithio ar yr amserlenni ar gyfer adolygu eich apêl.

8. Dim ond os byddwn wedi'i derbyn o fewn 20 diwrnod gwaith i'r diwrnod y codwyd y mater y byddwn yn gwrando ar apêl. .

9. Ar adeg derbyn yr apêl, byddwn yn cydnabod yr apêl ac, os na chaiff ei chyflwyno gan gorff dyfarnu, byddwn yn hysbysu unrhyw gyrff dyfarnu yr effeithir arnynt fel y bo'n briodol. Gellir cysylltu â chyrff dyfarnu i ddarparu gwybodaeth berthnasol fel rhan o'r broses adolygu a lle y bo'n briodol cewch eich hysbysu am ganlyniad yr apêl.

PROSES APELIO

10. Caiff apeliadau eu hystyried mewn ffordd deg a thryloyw. Fel y cyfryw, bydd y bobl sy'n adolygu'r apêl yn sicrhau y cewch eich hysbysu am y canlynol yn gyson:

    - Enwau'r bobl sy'n adolygu'r apêl.
    - Pryd rydym yn disgwyl cwblhau'r adolygiad ac, os oes oedi neu ohiriadau annisgwyl, unrhyw amserlenni diwygiedig. Bydd Cymwysterau Cymru yn anelu at ddarparu ymateb cyflym ond bydd yn rhoi diweddariadau cyson a rhesymau dros unrhyw oedi.
    - Y dystiolaeth neu ddogfennau allweddol sy'n dylanwadu ar y penderfyniad terfynol a'r hawl i ofyn am gopi a gwrthbrofi neu wadu gonestrwydd neu gywirdeb y dystiolaeth honno[3].
    - Y penderfyniad terfynol ar ffurf adroddiad neu ddatganiad ysgrifenedig.

11. Mae'n ofynnol i bawb sy'n gysylltiedig â chwyn:
    - Roi gwybod i'r Swyddog Apeliadau os oes unrhyw wrthdaro buddiannau posibl. Gall materion o'r fath gael eu codi gan yr achwynydd neu gan y rhai sy'n adolygu'r apêl.
    - Bodloni ceisiadau rhesymol y rhai sy'n adolygu'r apêl, gan gynnwys ceisiadau am gyfarfodydd a gwybodaeth. Mae gennych yr hawl i wrthod cwrdd â'r adolygwyr neu ddarparu tystiolaeth ond gwneir penderfyniadau ar sail y wybodaeth a ddarparwyd ac ni fydd cyfle arall gennych i nodi bod y dystiolaeth a ystyriwyd yn anghyflawn.
    - Ymddwyn mewn modd boneddigaidd a chwrtais. Credwn y dylai pob apelydd gael yr hawl i gael ei glywed, ei ddeall a'i barchu a bod gan ein staff yr un hawliau. Ni fyddwn yn goddef ymddygiad ymosodol na difrïol, gofynion afresymol na dyfalbarhad afresymol.

[3] Ar y cam adolygu annibynnol, bydd gan yr apelydd a gwneuthurwr penderfyniadau Cymwysterau Cymru yr hawl i weld yr un wybodaeth.

Rheolir apeliadau yn y ffordd ganlynol[4]:

Gellir datrys neu wrthod apeliadau ar bob cam ac felly, efallai na fyddant bob tro yn mynd ymlaen i'r cam canlynol.



[4]Caiff apeliadau sy'n ymwneud â chapio ffi, ildio neu dynnu cydnabyddiaeth neu gyfarwyddyd yn ôl yn unol ag amod trosglwyddo eu cyfeirio'n uniongyrchol i gam yr adolygwr annibynnol fel y nodir ym mhwyntiau 33-39.

ADOLYGIAD CYCHWYNNOL - Cam 1

12. Derbynnir pob apêl gan y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a fydd yn penodi Swyddog Apeliadau. Bydd y Swyddog Apeliadau yn adolygu'r apêl er mwyn ystyried a yw, ar yr ymddangosiad cyntaf, yn dod o fewn cwmpas y polisi hwn ac yn anfon cydnabyddiaeth o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn yr apêl. Mae enghreifftiau o apeliadau **na** fyddent yn dod o fewn cwmpas y polisi hwn yn cynnwys:

    - Apeliadau yn erbyn camau gweithredu nas cymerwyd gennym ni
    - Apeliadau nad ydynt yn ymwneud â'n swyddogaethau rheoliadol
    - Apeliadau a gaiff eu cyflwyno dro ar ôl tro ynglŷn â'r un mater
    - Apeliadau blinderus

    Mae Cymwysterau Cymru yn diffinio apeliadau afresymol o flinderus a chyson fel yr apelyddion hynny sydd, oherwydd amlder neu natur yr apeliadau, yn rhwystro gwaith y sefydliad. Os bydd Cymwysterau Cymru yn tybio bod mater yn afresymol o gyson neu flinderus byddwn yn cysylltu â'r apelydd i nodi hyn ac egluro pam.

13. Gall yr apêl gael ei gwrthod yn ddiannod:

    - Os na chafodd ei chyflwyno mewn pryd

14. Os nad yw rhai o elfennau'r apêl yn dod o fewn cwmpas y polisi hwn, byddwn yn hysbysu'r apelydd am y materion a gaiff eu hystyried yn ffurfiol a'r rhai na chânt eu hystyried yn ffurfiol. Os bydd y materion a godwyd yn dod o fewn cwmpas polisi arall (e.e. cwynion yn erbyn cyrff dyfarnu neu gwynion corfforaethol) caiff yr apelydd ei hysbysu am y weithdrefn berthnasol ond ni fydd hysbysiad o'r fath yn arwain at ystyriaeth awtomatig o dan weithdrefn arall. Bydd yn rhaid bodloni gofynion gweithdrefnau amgen a bydd yn rhaid i'r apelydd wneud cais ffurfiol am ystyriaeth o dan weithdrefn amgen. Pan gychwynnir dwy weithdrefn ar yr un pryd, gall Cymwysterau Cymru atal un dros dro tra'n aros i'r llall gael ei chwblhau.

15. Os ymddengys fod yr apêl yn dod o fewn cwmpas y polisi hwn, cewch eich hysbysu y caiff ei hystyried yn ffurfiol a'i chyfeirio at y person perthnasol a enwir i adolygu'r achos.

16. Os gellir datrys yr apêl yn ffurfiol ar y cam hwn, bydd Cymwysterau Cymru yn ysgrifennu at yr apelydd yn amlinellu unrhyw ateb a gynigir. Mewn achosion o'r fath, ni chaiff yr apêl ei chyfeirio'n awtomatig i'r cam adolygu mewnol a rhaid i'r apelydd hysbysu'r Swyddog Apeliadau os yw'n anfodlon ar ganlyniad y penderfyniad anffurfiol o fewn 20 diwrnod i'r hysbysiad o'r penderfyniad er mwyn cyfeirio'r mater i'r cam adolygu mewnol.

YSTYRIED Y GŴYN

Adolygiad mewnol - Cam 2

17. Bydd yr adolygiad mewnol yn cynnwys ymchwiliad llawn wedi ei ddogfennu. Gofynnir i'r rhai sy'n adolygu'r achos godi unrhyw wrthdaro buddiannau posibl wrth iddynt ddod i'r amlwg. Ar gyfer apeliadau a wneir ar sail rhagfarn neu duedd, ni fydd y rhai a enwir yn rhan o'r adolygiad o'r penderfyniad.

18. Caiff eich apêl fel arfer ei hystyried o fewn 20 diwrnod gwaith a bydd yr adolygwr/adolygwyr mewnol yn rhoi datganiad i'r Swyddog Apeliadau. Bydd y datganiad hwn yn cynnwys argymhelliad i naill ai wrthod eich apêl (gan gadarnhau'r penderfyniad rheoliadol gwreiddiol) neu gadarnhau eich apêl (naill ai'n llawn neu'n rhannol) ac amlinellu'r camau gweithredu a gynigir. Caiff copi o'r adroddiad ei roi i chi o fewn 20 diwrnod gwaith a chewch gyfle i roi sylwadau ar yr adroddiad o fewn 10 diwrnod gwaith arall. Ar ôl y dyddiad cau hwn, bydd y Swyddog Apeliadau yn adolygu'r wybodaeth ac yn rhoi sylwadau a bydd yn dyfarnu'r penderfyniad ac yn eich hysbysu am y canlyniad o fewn 10 diwrnod gwaith arall.

19. Pan gadarnheir apêl bydd Cymwysterau Cymru yn ymdrechu i egluro'r hyn a ddigwyddodd a pham. Lle y bo'n bosibl byddwn yn anelu at roi ateb priodol.

20. Lle y cytunir y bydd y penderfyniad neu'r cam gweithredu gwreiddiol yn aros, darperir y rhesymau dros y penderfyniad a'r ddogfennaeth ategol i'r apelydd. Bydd y wybodaeth hon yn gweithredu fel ymateb ffurfiol Cymwysterau Cymru i'r apêl a chaiff ei darparu os bydd angen yng nghamau dilynol y broses i'r Adolygwr Annibynnol.

Adolygiad annibynnol - Cam 3

21. Os credwch fod canlyniad yr adolygiad mewnol wedi bod yn annheg neu'n amhriodol, yna gallwch apelio yn erbyn penderfyniad cam 2 ac uwchgyfeirio'r gŵyn i gam yr adolygiad annibynnol. Rhaid i chi gadarnhau eich bwriad yn ysgrifenedig i'r Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol neu anfon e-bost ato o

fewn 20 diwrnod gwaith i'r hysbysiad terfynol o'r cam adolygu mewnol. Dylech hefyd ddarparu sylwebaeth ar y datganiad o'r adroddiad/datganiad adolygu mewnol gan gynnwys amlinelliad o unrhyw anghywirdebau y credwch sydd ynddo. Cewch ddarparu tystiolaeth ychwanegol hefyd, ond rhaid i unrhyw dystiolaeth ychwanegol gynnwys datganiad yn egluro pam na chafodd ei darparu ar gam cynharach. Heb reswm dilys, gellir tybio bod tystiolaeth ychwanegol yn annerbyniol.

22. Nid yw anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan Cymwysterau Cymru yn awtomatig yn rhoi hawl i uwchgyfeirio i'r cam adolygu annibynnol. Rhaid gwneud apeliadau ar sail un o'r canlynol:

A. Ni chafodd y penderfyniad ei wneud yn unol â'r polisi perthnasol, rheoliadau, deddfwriaeth neu wybodaeth arall a gafodd ei chyhoeddi neu ei chyfleu gan Cymwysterau Cymru.

B. Bod y penderfyniad yn seiliedig ar dystiolaeth anghyflawn neu anghywir, i'r graddau ei bod yn rhesymol dod i'r casgliad y gall y penderfyniad fod wedi bod yn wahanol.[5]

C. Bod rhagfarn neu duedd gan un neu fwy o wneuthurwyr penderfyniadau.

23. Ni dderbynnir apeliadau ar unrhyw sail eraill. Os na wnewch chi egluro ar ba sail rydych yn apelio, efallai na chaiff eich apêl ei derbyn.

24. Bydd y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol yn penodi Swyddog Apeliadau. Efallai mai'r Swyddog Apeliadau fydd y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol neu Gyfarwyddwr Gweithredol neu rywun sy'n uwch na hynny ond, nid y Swyddog Apeliadau a adolygodd yr achos ac a wnaeth y penderfyniad Cam 2 fydd y Swyddog Apeliadau.

25. Os na fydd yr apêl yn dod o fewn cwmpas y polisi hwn, byddwn yn hysbysu'r apelydd o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn yr apêl bod yr apêl wedi'i gwrthod a byddwn yn cynnwys y rhesymau dros ein penderfyniad. Yna bydd gan yr apelydd 10 diwrnod gwaith arall i ailgyflwyno'r apêl gan ddangos yn glir sut y bodlonwyd y sail dros apelio mewn cyflwyniad diwygiedig. Os na fodlonwyd y sail ar ôl ailgyflwyno, caiff apeliadau dilynol am yr un penderfyniad eu gwrthod

[5] Os ydych yn apelio ar y sail hon a bod yr apêl yn cyfeirio at wybodaeth nas darparwyd ar adeg y penderfyniad cychwynnol, rhaid i chi gynnwys datganiad yn egluro pam nad oedd ar gael cyn hyn. Gall methu â darparu seiliau dilys arwain at wrthod eich apêl. Efallai y bydd yn ofynnol i chi ddarparu tystiolaeth ychwanegol.

yn awtomatig. Mewn achosion o'r fath bydd yr amserlenni ar gyfer adolygu yn dechrau o'r dyddiad ailgyflwyno.

26. Os bydd y Swyddog Apeliadau yn penderfynu bod achos prima facie ar sail yr hyn a nodwyd uchod, cewch gydnabyddiaeth a chaiff yr apêl ac unrhyw dystiolaeth ategol a ddarparwyd gennych chi neu gan unrhyw bartïon yr effeithiwyd arnynt eu rhoi i adolygwr annibynnol a fydd yn gweithredu'n annibynnol ar Cymwysterau Cymru ac fel arfer ni fydd ganddo unrhyw wybodaeth flaenorol am y penderfyniad a wnaed nac unrhyw gysylltiad blaenorol â'r penderfyniad hwnnw. Diben yr adolygwr annibynnol yw llunio barn annibynnol ar benderfyniad Cam 2 a wnaed gan Cymwysterau Cymru.

27. Bydd yr adolygwr annibynnol yn ystyried yr achos ar sail y ddogfennaeth a ddarparwyd gan yr apelydd a chan Cymwysterau Cymru ac, mewn rhai achosion, yn gofyn i'r partïon perthnasol am ragor o wybodaeth. Mae gan yr adolygwr annibynnol yr hawl i gyfweld unrhyw bersonau sydd, yn ei farn ef, yn berthnasol i gwblhau ei ymchwiliad ond nid oes rhaid iddo gynnal unrhyw gyfweliadau. Bydd yr adolygwr annibynnol fel arfer yn ystyried yr achos o fewn 30 diwrnod gwaith i dderbyn yr apêl a bydd yn darparu adroddiad llawn i'r Swyddog Apeliadau.

28. Bydd yr adolygwr annibynnol yn ystyried y sail dros apelio ac yn adolygu:

- P'un a fu diffyg neu afreoleidd-dra wrth gynnal y broses a ddilynwyd wrth ddod i benderfyniad
- P'un a oedd y penderfyniad a wnaed gan Swyddog Apeliadau Cymwysterau Cymru yn seiliedig ar dystiolaeth anghyflawn neu anghywir, i'r graddau ei fod yn rhesymol dod i'r casgliad y gallai'r penderfyniad fod wedi bod yn wahanol. P'un a oes gwybodaeth newydd/ychwanegol nad oedd ar gael i Cymwysterau Cymru ar y pryd a bod rheswm da dros beidio â datgan neu dros beidio â gwneud cyflwyniad ar y pryd.
- P'un a ystyriwyd yr holl dystiolaeth berthnasol wrth ddod i benderfyniad Cam 2.
- P'un a oedd effaith penderfyniad Cam 2 yn anghymesur â'r nod.
- P'un a oedd gan Cymwysterau Cymru ragfarn neu duedd wrth wneud penderfyniad Cam 2 gan gynnwys unrhyw wrthdaro buddiannau nas datgelwyd.

29. Bydd yr adolygwr annibynnol yn gwneud argymhelliad i Cymwysterau Cymru naill ai:
    - Cadarnhau penderfyniad Cam 2

- Cadarnhau penderfyniad Cam 2 yn rhannol (gan gynnwys parhau â'r un canlyniad ond ar sail wahanol)
- Gwyrdroi penderfyniad Cam 2 a'i ailystyried.

30. Bydd Cymwysterau Cymru yn hysbysu'r apelydd a'r partïon perthnasol am argymhellion yr adolygwr annibynnol a chamau gweithredu dilynol Cymwysterau Cymru o fewn 20 diwrnod arall. Bydd Cymwysterau Cymru fel arfer yn ceisio dilyn argymhellion yr adolygwr annibynnol. Os na fydd Cymwysterau Cymru yn gweithredu'r argymhelliad, darperir datganiad ysgrifenedig i gyfiawnhau'r penderfyniad hwn. Y Swyddog Apeliadau fydd yn gwneud y penderfyniad.

31. Os bydd yr adolygwr annibynnol wedi argymell bod Cymwysterau Cymru yn ailystyried y penderfyniad, ni fydd hyn o reidrwydd yn arwain at ganlyniad gwahanol i'r penderfyniad gwreiddiol. Bydd apeliadau a gadarnheir ar sail diffygion gweithdrefnol yn sicrhau y dilynir y weithdrefn gyhoeddedig wrth ailwneud y penderfyniad ond ni allant atal y canlyniad gwreiddiol rhag cael ei wneud eto.

32. Ar ôl cynnal yr adolygiad, ac eithrio penderfyniad i osod dirwy ariannol neu i adennill costau am osod cosbau, bydd unrhyw benderfyniad a wneir gan Cymwysterau Cymru yn derfynol a thybir bod ein gweithdrefnau wedi'u cwblhau.

CEISIADAU AM ADOLYGIAD O BENDERFYNIADAU

Adolygiad annibynnol - capio ffioedd, cyfarwyddyd yn unol ag amod trosglwyddo a thynnu ceisiadau cydnabyddiaeth am adolygiadau yn ôl[6]

33. Derbynnir eich cais gan y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a fydd yn penodi Swyddog Apeliadau. Gall y Swyddog Apeliadau fod yn Bennaeth Llywodraethu Corfforaethol neu'n Gyfarwyddwr Gweithredol neu uchod. Caiff eich cais am adolygiad ei gydnabod. Caiff y cais am adolygiad ac unrhyw dystiolaeth ategol a ddarparwyd gennych chi neu gan unrhyw bartïon eraill yr effeithiwyd arnynt eu rhoi i adolygwr annibynnol a fydd yn gweithredu'n annibynnol ar Cymwysterau Cymru ac fel arfer ni fydd ganddo unrhyw wybodaeth flaenorol am y penderfyniad a wnaed nac unrhyw gysylltiad

[6]Mae'r adran hon o'r broses apelio yn ymwneud â cheisiadau am adolygiadau ar gyfer penderfyniadau penodol ac mae'n dilyn ymlaen o'r prosesau hysbysu, cynrychioli a rhoi gwybod am y canlyniad a'r hawl am adolygiad fel y'u diffinnir yn atodlen 3 o'r Ddeddf.

blaenorol â'r penderfyniad hwnnw. Diben yr adolygwr annibynnol yw llunio barn annibynnol ar rinweddau'r achos ac adolygu'r penderfyniad gwreiddiol.

34. Bydd yr adolygwr annibynnol yn ystyried yr achos ar sail y ddogfennaeth a ddarparwyd gan yr achwynydd a chan Cymwysterau Cymru ac, mewn rhai achosion, yn gofyn i'r partïon perthnasol am ragor o wybodaeth. Mae gan yr adolygwr annibynnol yr hawl i gyfweld unrhyw bersonau sy'n berthnasol yn ei farn ef i gwblhau ei ymchwiliad ond nid oes rhaid iddo gynnal unrhyw gyfweliadau. Bydd yr adolygwr annibynnol fel arfer yn ystyried yr achos o fewn 30 diwrnod gwaith ac yn darparu adroddiad llawn i'r Swyddog Apeliadau.

35. Bydd yr adolygwr annibynnol yn ystyried:

- P'un a fu diffyg neu afreoleidd-dra wrth gynnal y broses a ddilynwyd wrth ddod i benderfyniad
- P'un a oedd y penderfyniad a wnaed gan Cymwysterau Cymru yn seiliedig ar dystiolaeth anghyflawn neu anghywir, i'r graddau ei fod yn rhesymol dod i'r casgliad y gallai'r penderfyniad fod wedi bod yn wahanol. P'un a oes gwybodaeth newydd/ychwanegol nad oedd ar gael i Cymwysterau Cymru ar y pryd a bod rheswm da dros beidio â datgan neu dros beidio â gwneud cyflwyniad ar y pryd.
- P'un a ystyriwyd yr holl dystiolaeth berthnasol wrth ddod i'r penderfyniad cychwynnol.
- P'un a oedd effaith y penderfyniad yn anghymesur â'r nod.
- P'un a oedd gan Cymwysterau Cymru ragfarn neu duedd wrth wneud y penderfyniad gan gynnwys unrhyw wrthdaro buddiannau nas datgelwyd.

36. Bydd yr adolygwr annibynnol yn gwneud argymhelliad i Cymwysterau Cymru naill ai:
    - Cadarnhau'r penderfyniad
    - Cadarnhau'r penderfyniad yn rhannol (gan gynnwys parhau â'r un canlyniad ond ar sail wahanol)
    - Gwyrdroi'r penderfyniad a'i ailystyried

37. Bydd Cymwysterau Cymru yn hysbysu'r apelydd a'r partïon perthnasol am argymhellion yr adolygwr annibynnol a chamau gweithredu dilynol Cymwysterau Cymru. Bydd Cymwysterau Cymru fel arfer yn ceisio dilyn argymhellion yr adolygwr annibynnol. Os na fydd Cymwysterau Cymru yn gweithredu'r argymhelliad, darperir datganiad ysgrifenedig i gyfiawnhau'r penderfyniad hwn.

38. Bydd Cymwysterau Cymru yn cadarnhau ei benderfyniad o fewn 20 diwrnod gwaith arall i osod amod/ cyfarwyddyd/ tynnu'n ôl ac yn:

    - Nodi'r penderfyniad fel y'i cadarnhawyd neu y'i newidiwyd
    - Rhoi rhesymau dros y cadarnhad neu'r newid
    - Nodi'r dyddiad y bydd y penderfyniad a gadarnhawyd neu a newidiwyd yn dod i rym

39. Os bydd yr adolygwr annibynnol wedi argymell bod Cymwysterau Cymru yn ailystyried y penderfyniad, ni fydd hyn o reidrwydd yn arwain at ganlyniad gwahanol i'r penderfyniad gwreiddiol. Bydd apeliadau a gadarnheir ar sail diffygion gweithdrefnol yn sicrhau y dilynir y weithdrefn gyhoeddedig wrth ailwneud y penderfyniad ond ni allant atal y canlyniad gwreiddiol rhag cael ei wneud eto.